

Cywiriadau i'r Ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026-31 – cyhoeddwyd 29 Mai 2025

Ar 20 Mawrth 2025, cyhoeddodd Ofcom ei [Ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026-31](#) (“ein Hymgyngghoriad”) gan gynnwys Amodau drafft SMP a Chyfarwyddiadau drafft.

Cywiriadau i Gyfrol 4, Adran 6

Ar ôl cyhoeddi ein Hymgyngghoriad, rydyn ni wedi dod o hyd i ddau wall yng Nghyfrol 4 Adran 6 (Dylunio a gweithredu rheolaeth ffioedd) rydyn ni'n eu cywiro.

Dangosir y cywiriadau mewn **coch**.

Paragraff 6.76

Dylai paragraff 6.76 ein Hymgyngghoriad ddarllen fel a ganlyn:

Yng Nghyfrol 3 Adran 8, rydyn ni'n cynnig trefniadau pontio ar gyfer gwasanaethau IEC o unrhyw gyfnewidfeydd rydyn ni'n cynnig eu hailddosbarthu'n BT+2 ar gyfer y cyfnod 2026-2031. Dan ein cynigion, mae'n rhaid i Openreach ddarparu gwasanaethau IEC presennol mewn cyfnewidfeydd sydd wedi cael eu hailddosbarthu i BT+2 am gyfnod o **un flwyddyn**. O'r herwydd, bydd gwasanaethau IEC o'r cyfnewidfeydd hynny sydd wedi'u hailddosbarthu yn ddarostyngedig i'n rheolaethau ffioedd arfaethedig a byddant yn cael eu cynnwys yn y fasged Ether-rwyd neu'r rheolaethau gwasanaeth sengl WDM priodol ar gyfer y cyfnod pontio.

Paragraff 6.81

Dylai paragraff 6.81 ein Hymgyngghoriad ddarllen fel a ganlyn:

Yng Nghyfrol 3 Adran 8, rydyn ni'n cynnig trefniadau pontio ar gyfer gwasanaethau DFX o unrhyw gyfnewidfeydd BT yn unig, yr ydyn ni'n cynnig eu hailddosbarthu'n BT+2 ar gyfer y cyfnod adolygu 2026-2031. **Rydym yn egluro nad ydym wedi cael digon o dystiolaeth gan ddefnyddwyr i benderfynu'n benodol am ba hyd y mae angen cyfnod pontio. Felly, rydym yn croesawu dystiolaeth gan ddefnyddwyr sy'n rhoi manylion y gofynion technegol perthnasol sydd ganddynt a manylion yr amser sydd ei angen i alluogi hyn i sicrhau pontio cynaliadwy o DFX mewn cyfnewidfeydd heb eu rheoleiddio. Rydyn ni'n cynnig y bydd gwasanaethau DFX o'r cyfnewidfeydd hynny sydd wedi'u hailddosbarthu yn ddarostyngedig i'n rheolaethau ffioedd arfaethedig ar gyfer y cyfnod pontio.**

Cyfeiriwyd yn gywir at y trefniadau pontio arfaethedig ar gyfer gwasanaethau IEC a DFX mewn cyfnewidfeydd BT+2 a ail-ddosbarthwyd yn yr amodau SMP drafft yng Nghyfrol 7A ein Hymgyngghoriad (Atodlen 1, Tabl 1B), ac felly nid oes angen eu cywiro.

Cywiriadau i'n Model Ffeibr Tywyll

Ar ôl cyhoeddi ein Hymgyngghoriad, fe wnaethom ganfod gwall yn fersiwn Gyfrinachol ein model costau Ffeibr Tywyll (“model Ffeibr Tywyll”) sy'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo lefel y rheolaethau ffioedd arfaethedig ar gyfer gwasanaethau Mynediad Ffeibr Tywyll (DFA) a Rhyng-gyfnewid Ffeibr

Tywyll (DFX). Yn benodol, nododd y tab “prisiau EAD” gysylltiad a phrisiau rhentu cylched ar gyfer gwasanaethau **1 Gbit yr eiliad** EAD ac EAD LA, pan ddylai fod wedi adrodd ar y prisiau ar gyfer gwasanaethau **10 Gbit yr eiliad** EAD ac EAD LA er mwyn bod yn gyson â’r meincnod lled band a ddangosir yn y tab “Panel Rheoli”.

Ar ôl cywiro’r gwall, rydym yn gwneud mân addasiadau i wybodaeth benodol sy’n deillio o’r model a gyhoeddwyd yn ein Hymgyngghoriad, fel y nodir isod.

Nid oedd y gwall hwn yn ymddangos yn y fersiwn heb fod yn gyfrinachol o’r model Ffeibr Tywyll a gyhoeddwyd ar 20 Mawrth 2025.

Allbynnau wedi’u cywiro yn defnyddio’r model Ffeibr Tywyll

Yn Nhabl A17.2 yn ein Hymgyngghoriad, fe wnaethom grynhoi allbynnau rheolaethau ffioedd arfaethedig ar gyfer DFA a DFX. Yn Nhabl 1 isod, rydym wedi diweddarau Tabl A17.2, gan gywiro’r gwall yn fersiwn Gyfrinachol ein model Ffeibr Tywyll. Dangosir y cywiriadau mewn **coch**.

Tabl 1: Fersiwn wedi’i gywiro o Dabl A17.2

	Senario costau uchel		Senario costau sylfaenol		Senario costau isel	
Gwasanaeth ffeibr tywyll	SCA ¹	Llwybr glanio (glide path) CPI-X ²	SCA	Llwybr glanio CPI-X	SCA	Llwybr glanio CPI-X
Cysylltiad DFA (fesul cylched)	-24%	CPI – 6.50%	-27%	CPI – 9.00%	-29%	CPI – 10.25%
Rhent cylched DFA (fesul cylched y flwyddyn) ³	+20%	CPI – 1.25%	+14%	CPI – 2.75%	+9%	CPI – 3.75%
Cysylltiad DFX (fesul cylched)	-8%	CPI – 6.00%	-10%	CPI – 8.00%	-11%	CPI – 9.00%
Rhent cylched DFX (fesul cylched y flwyddyn) ⁴	-31%	CPI – 19.00%	-31%	CPI – 24.25%	-29%	CPI – 25.25%

¹ Bydd yr SCA arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith ar 1 Ebrill 2026.

² Bydd y llwybrau glanio CPI-X arfaethedig yn berthnasol ym mhob blwyddyn o’r rheolaeth ffioedd. Ar gyfer y gwasanaethau hynny lle cynigir SCA, y flwyddyn gyntaf y bydd llwybr glanio CIP-X yn berthnasol fydd 2 Ebrill 2026 i 31 Mawrth 2027.

³ Ar gyfer rhentu cylched DFA, rydym yn nodi bod yr SCA arfaethedig yn gofyn am gynnydd mewn prisiau ar 1 Ebrill 2026, ac yna cynnydd blynyddol is na chwyddiant mewn prisiau (h.y. gostyngiadau termau real mewn prisiau) o dan reolaeth ffioedd llwybr glanio rhwng 2 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2031. Mae hyn yn digwydd yn rhannol oherwydd rhagwelir y bydd costau uned rhentu cylched DFA yn gostwng rhwng 2025/26 a 2030/31. Fel y nodwyd yng Nghyfrol 4 Adran 6, bydd ein dull gweithredu SCA rhannol arfaethedig (75%) yn darparu llwybr glanio cyffredinol llyfnach ar gyfer prisiau yn ystod y cyfnod rheoli ffioedd nag y byddai SCA 100%.

⁴ Ar gyfer rhentu cylchedau DFX, nodwn fod effaith pris gostyngol yr SCA yn fwy yn y senario costau uchel ag yn y senario costau isel, a allai ymddangos yn anodd ei ddeall. Mae’r canlyniad hwn yn cael ei sbarduno gan y gost uned a ddyrannwyd yn llawn (FAC) 2025/26 a ddyrannwyd o gydran rheoli cynnyrch gwerthu Openreach i rentu cylched DFX sy’n is yn y senario costau uchel. Un cyfrannwr at amcangyfrif FAC yr uned hon yw balans cymedrig negyddol yn y cyfalaf a ddefnyddir (MCE), ac mae Openreach a BT wedi rhoi gwybod i ni [3<]. Mae BT hefyd wedi rhoi gwybod i ni y bydd diwygiadau’n cael eu gwneud yn ei

	Senario costau uchel		Senario costau sylfaenol		Senario costau isel	
Rhent prif gyswllt DFX (y metr y flwyddyn)	-11%	CPI – 2.25%	-14%	CPI – 3.50%	-17%	CPI – 4.75%

Mae'r un newidiadau hefyd yn berthnasol i'r rheolaethau ffioedd ffeibr tywyll arfaethedig a nodir yn nhablau canlynol ein Hymgyngghoriad:

- Cyfrol 4 Tabl 2.1
- Cyfrol 4 Tabl 2.2
- Cyfrol 4 Tabl 3.1

Cywiriadau testun cysylltiedig eraill i'n Hymgyngghoriad

Mae cywiro'r gwall yn y model Ffeibr Tywyll hefyd yn arwain at gywiro'r testun yn ein Hymgyngghoriad. Rydym wedi rhestru'r cywiriadau testun hyn isod; dangosir y cywiriadau mewn **coch**.

- Yn gyntaf, dylai Atodiad 17 paragraff A17.64 ddarllen fel a ganlyn:
Rydym yn cynnig:
 - cynnwys oddeutu [£<] (**rhwng 20% a 40%**) a [£<] (**rhwng 0% a 20%**) o gostau cydran FAC yr uned (rhentu cylchedau a chysylltiadau yn y drefn honno) ar gyfer Ffi Gweinyddu Ofcom a dyledwyr Tybiannol - Symiau refeniw derbyniadwy (Openreach di-gopr) a briodolir i'r gwasanaeth EAD LA yn uned FAC elfen B y gwasanaeth DFA cyfatebol.
 - i gynnwys oddeutu [£<] (rhwng 0% a 20%), [£<] (rhwng 0% a 20%) a [£<] (rhwng 40% a 60%) o gostau cydran FAC yr uned (rhentu cylchedau, cysylltiadau a phrif gyswllt yn y drefn honno) ar gyfer Ffi Gweinyddu Ofcom a dyledwyr Tybiannol - Symiau refeniw derbyniadwy (Openreach di-gopr) a briodolir i'r gwasanaeth EAD yn uned FAC elfen B y gwasanaeth DFX cyfatebol”.
- Yn ail, dylai Cyfrol 4 paragraff 6.21 ddarllen fel a ganlyn:
“Erbyn diwedd y cyfnod rheoli prisiau presennol, rhagwelir y bydd prisiau cysylltu DFA gryn dipyn yn uwch na FAC eu huned (£1,380.22 o'i gymharu â **£882.55**), tra rhagwelir y bydd prisiau rhentu cylched DFA yn is na FAC eu huned (£1,088.76 y flwyddyn o'i gymharu â **£1,295.63** y flwyddyn)”.
- Yn drydydd, dylai Cyfrol 4 paragraff 6.29 ddarllen fel a ganlyn:
“Erbyn diwedd y cyfnod rheoli ffioedd presennol, rhagwelir y bydd prisiau cysylltu DFX yn uwch na FAC eu huned (£269.34 o'i gymharu â **£217.23**). Yn ogystal, rhagwelir y bydd prisiau rhentu DFX yn uwch na FAC eu huned; mae hyn yn wir ar gyfer rhentu cylchedau DFX ((£35.98 y flwyddyn o'i gymharu â **£13.88** y flwyddyn) a rhentu prif gysylltiad DFX (£126.00 y cilomedr y flwyddyn o'i gymharu â £90.46 y cilomedr y flwyddyn)”.

Amod Drafft 12I

RFS 2025 i [£<]. Ffynonellau: Ymateb Openreach dyddiedig 20 Tachwedd 2024 i hysbysiad a135 dyddiedig 23 Hydref 2024, cwestiwn D4; ymateb BT dyddiedig 27 Tachwedd 2024 i hysbysiad a135 dyddiedig 23 Hydref 2024, cwestiwn D4; ymatebion BT dyddiedig 25 Chwefror 2025 a 26 Chwefror 2025 i hysbysiad a135 dyddiedig 10 Chwefror 2025, cwestiwn 3.

Fe wnaethom gyhoeddi ein Hamodau SMP drafft yn Atodiad 7 ein Hymgyngghoriad. Roedd Rhan 12I yn cynnwys yr amodau SMP drafft ar gyfer y rheolaethau ffioedd arfaethedig ar gyfer DFA a DFX, ac yn cynnwys, at ddibenion enghreifftiol, ystodau rheoli prisiau a ffioedd, a oedd yn deillio o'r model Ffeibr Tywyll. Mewn coch, rydym yn nodi'r ffigurau dangosol diwygiedig perthnasol ar ôl cywiro amodau SMP drafft 12I.1, 12I.5 a 12I.6:

Ffioedd am Fynediad Ffeibr Tywyll	
12I.1 (Ardal LLA 3, Ardal LLA 2 (Pontio), LLA HNR (Pontio))	Ar 1 Ebrill 2026, ar gyfer pob gwasanaeth a restrir ym mharagraffau a) – d), ni fydd y Darparwr Pennaf yn codi mwy na'r swm a bennir mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw: (a) ar gyfer Cysylltiad Cylched Ffeibr Sengl, y swm o £[983.56 i 1,047.30]; (b) ar gyfer Cysylltiad Cylched Ffeibr Ddeuol, y swm o £[1,967.12 i 2,094.60]; (c) ar gyfer Rhent Blynnyddol am Gylched Ffeibr Sengl, y swm o £[1,189.96 i 1,307.03] y flwyddyn; ac (d) ar gyfer Rhent Blynnyddol am Gylched Ffeibr Ddeuol, y swm o £[2,379.92 i 2,614.06] y flwyddyn.

Ffioedd am DFX	
12I.5 (IEC BT Yn Unig, IEC BT+1, IEC DF Pontio)	Ac eithrio i'r graddau y bydd Ofcom yn cyfarwyddo fel arall, bydd y Darparwr Pennaf yn sicrhau, am y cyfnod rhwng 2 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027 yn gynwysedig, nad yw'r Ffi Gyfartaledd Bwysol am y Flwyddyn Berthnasol ar gyfer pob un o'r gwasanaethau a restrir yn Amod 12I.4(a) – (f) yn ddim mwy na: (a) ar gyfer Cysylltiad Cylched Ffeibr Sengl, y Ffi Gychwynnol wedi'i lluosio â $(100\% + \text{CPI} + [-6.00\% \text{ i } -9.00\%])$; (b) ar gyfer Cysylltiad Cylched Ffeibr Ddeuol, y Ffi Gychwynnol wedi'i lluosio â $(100\% + \text{CPI} + [-6.00\% \text{ i } -9.00\%])$; (c) ar gyfer Rhent Blynnyddol am Gylched Ffeibr Sengl, y Ffi Gychwynnol wedi'i lluosio â <math>(100\% + \text{CPI} + [-19.00\% \text{ i } -25.25\%])</math>; (d) ar gyfer Rhent Blynnyddol am Gylched Ffeibr Ddeuol, y Ffi Gychwynnol wedi'i lluosio â <math>(100\% + \text{CPI} + [-19.00\% \text{ i } -25.25\%])</math>; (e) ar gyfer Prif Gysylltiad Cylched Ffeibr Sengl, y Ffi Gychwynnol wedi'i lluosio â $(100\% + \text{CPI} + [-2.25\% \text{ i } -4.75\%])$; ac (f) ar gyfer Cysylltiad Cylched Ffeibr Ddeuol, y Ffi Gychwynnol wedi'i lluosio â $(100\% + \text{CPI} + [-2.25\% \text{ i } -4.75\%])$. At ddibenion yr Amod 12I.5 hwn, mae'r Ffi Gyfartaledd Bwysol am y Flwyddyn Berthnasol i'w chyfrifo yn unol â Fformiwla 1, ac eithrio: (a) mae'r Flwyddyn Berthnasol, t, yn golygu'r cyfnod rhwng 2 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027; ac

	(b) $w_{i,j,t}$ yn gyfran o'r Flwyddyn Berthnasol, t , pryd y bydd ffi ar wahân, $p_{i,j,t}$ mewn gwirionedd yn cael ei chyfrifo drwy rannu cyfanswm nifer y diwrnodau y mae'r ffi mewn grym â 364.
--	---

Ffioedd mewn Blynnyddoedd Perthnasol dilynol	
12I.6 (IEC BT Yn Unig, IEC BT+1, IEC DF Pontio)	Ac eithrio i'r graddau y gall Ofcom gyfarwyddo fel arall, ym mhob un o'r (i) Ail Flwyddyn Berthnasol, (ii) y Drydedd Flwyddyn Berthnasol, (iii) y Bedwaredd Flwyddyn Berthnasol a'r (iv) Bumed Flwyddyn Berthnasol, ar gyfer pob gwasanaeth a nodir yn Amod 12I.4a) – f), ni fydd y Darparwr Pennaf yn codi mwy na'r swm a gyfrifir drwy ddefnyddio Fformiwla 7 (Fformiwla Terfyn Ffi Flynyddol) gyda: $\bar{p}_{i,1}$ yn cael ei ddiffinio fel yr uchafswm y caniateir ei godi am y gwasanaeth hwnnw ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod rhwng 2 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027, yn gynwysedig fel y nodir yn Amod 12I.5; X_i a ddiffinnir fel: (a) ar gyfer Cysylltiad Cylched Ffeibr Sengl, [-6.00% to -9.00%]; (b) ar gyfer Cysylltiad Cylched Ffeibr Ddeuol, [-6.00% to -9.00%]; (c) ar gyfer Rhent Blynnyddol ar Gylched Ffeibr Sengl, [-19.00% i -25.25%]; (d) ar gyfer Rhent Blynnyddol ar Gylched Ffeibr Ddeuol, [-19.00% i -25.25%]; (e) ar gyfer Rhent Blynnyddol Prif Gysylltiad Cylched Ffeibr Sengl, [-2.25% i -4.75%]; ac (f) ar gyfer Rhent Blynnyddol Prif Gysylltiad Cylched Ffeibr Ddeuol, [-2.25% i -4.75%].

Diwedd.